# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Mawrth 2017 i'w hateb ar 15 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**1. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau gwasanaethau cyhoeddus o fewn Dinas a Sir Abertawe? OAQ(5)0104(FLG)

**2. Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymateb cychwynnol yr awdurdodau lleol i'r papur gwyn ar ddiwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru? OAQ(5)0111(FLG)**W**

**3. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyllid canlyniadol Barnett sy'n deillio o Gyllideb y Gwanwyn Canghellor y DU? OAQ(5)0114(FLG)

**4. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am oblygiadau Cyllideb y Gwanwyn 2017 Llywodraeth y DU i grant bloc Cymru? OAQ(5)0110(FLG)

**5. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gynyddu tryloywder o ran llywodraeth leol? OAQ(5)0112(FLG)

**6. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio Cymunedau a Phlant i gefnogi cynllun peilot parcio ceir Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0105(FLG)

**7. Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y panel cynghori allanol ar dynnu allan o'r UE? OAQ(5)0107(FLG)

**8. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ag awdurdodau lleol i sicrhau llywodraethu atebol a thryloyw o ran Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd? OAQ(5)0108(FLG)

**9. Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y bydd cyllideb atodol Llywodraeth Cymru o fudd i bobl Islwyn? OAQ(5)0113(FLG)

**10.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynnydd y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi'i wneud i fodloni eu hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(5)0109(FLG)

**11.** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o allu adrannau safonau masnach awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chyflenwyr twyllodrus cynnyrch rhyngwladol? OAQ(5)0103(FLG)

**12.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth lleol, gan gyfeirio'n arbennig at drefniadau ar gyfer gweithio'n rhanbarthol? OAQ(5)0106(FLG)

**13.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol? OAQ(5)0102(FLG)

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

**1.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i hybu teithio i'r Cynulliad mewn cerbydau trydan? OAQ(5)0004(AC)